CYLCHLYTHYR YSGOL DEWI SANT


CYLCHLYTHYR WYTHNOSOL I DEULUOEDD YR YSGOL
WEEKLY FAMILY NEWSLETTER

02.02.24



Rydym yn falch o gefnogi wythnos lechyd meddwl Plant unwaith eto yma yn Ysgol Dewi Sant. Mi fydd y plant yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau er mwyn tynnu sylw'r plant at yr ymgyrch yma. Thema'r flwyddyn yma yw 'Mae Fy Llais yn Bwysig'.

Mae Fy Llais yn Bwysig yn ymwneud ag awdurdodi plant a phobl ifanc drwy roi'r offer sydd eu hangen arnynt i fynegi eu hunain. Y nod yn ystod Wythnos lechyd Meddwl Plant yw i bob plentyn a pherson ifanc allu dweud, a chredu – "Mae Fy Llais yn Bwysig."



We are proud to be supporting Children's Mental Health week again this year here at Ysgol Dewi Sant. The children will be taking part in a variety of different activities that will draw the children's attention towards the topic. This years theme is 'My Voice Matters'.

My Voice Matters is about empowering children and young people by providing them with the tools they need to express themselves. During Children's Mental Health Week, we want all children and young people to be able to say, and believe - "My Voice Matters."



@YsgolDewiSant @Ysgoldewisant @YsgolDewiSant

Dyddiadau i'w gofio ym mis Chwefror
Dates to remember in Feburary

Dyddiad cau holl gystadlaethau Llwyfan a Maes (Urdd) - 05/02/24

Closing date for all Stage and Maes competitions (Urdd) - 05/02/24

Wythnos Iechyd Meddwl Plant - 05/02/24 - 11/02/24

Children's mental health week - 05/02/24 - 11/02/24



Hanner tymor - 12/02/24- 16/02/24

Half term - 12/02/24- 16/02/24

HMS - 19/02/24

Staff training day - 19/02/24



Da iawn i Ruby am gyrraedd gradd 6 yn ei gymnasteg! Dal ati!

Well done to Ruby for reaching level 6 in gymnastics!



Llongyfarchiadau mawr i Branwen a Mabli am gael tystysgrif am enwi'r lori ail-gylchu i Sir Ddinbych!

Congratulations to Brawnwen and Mabli on receiving a certificate for naming the recycling lorry for Denbighshire!







Fel rhan o'u thema 'Byd o ddathlu gyda Sali Mali' mae dosbarthiadau Meithrin wedi bod yn brysur yn dysgu am y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd. Cawsant y cyfle i greu draig sy'n cynrychioli anifail y flwyddyn Tsieineaidd hon, adeiladu gan ddefnyddio ysbrydoliaeth gan yr artist Ai Weiwei ac hefyd blasu nwdls a prawn cracers sef bwydydd traddodiadol Tsieineaidd.

As part of their theme 'Byd o ddathlu gyda Sali Mali' the Nursery classes have been busy learning about the Chinese New Year. They've been busy creating dragons which is the zodiac sign for this year, building whilst using inspiration from the artist Ai Weiwei and trying noodles and prawn crackers which are traditional Chinese foods.
















mudiad meithrin

arbenigwyr y blynyddoedd cynnar
Welsh early years specialists

Ymunwch a'r tîm!
Join the team!

Mae Cylch Meithrin Ysgol Dewi Sant yn chwilio am gynorthwyydd brwdfrydig ac egnïol. Rydym yn dîm blaengar gyda'r dyhead i ehangu'r cylch, a thros amser bwriadwn gynyddu oriau gwasanaeth y cylch. Croesawn bobl sy'n newydd i faes gofal plant sydd am ddatblygu eu sgiliau ac ennill cymwysterau.

Cylch Meithrin Ysgol Dewi Sant is looking for an enthusiastic and energetic assistant. We are a forward thinking team with a desire to grow the cylch and increase opening hours over time. We welcome people who are new to childcare and wish to develop their skills and gain qualifications.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch / For more information contact:

Arweinydd / Leader : Joy Lee
07743 497294
cmysgoldewisant@gmail.com

Dyddiad cau / Closing date: Closing Date: 12/02/2024